

Ionawr 2023

ID Pleidleisiwr: Canllawiau cyflym i staff (Cymru)

Gofyniad ID Pleidleisiwr

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gofyniad newydd i bleidleiswyr yng Nghymru sef eu bod, o 4 Mai 2023 ymlaen, yn dangos ID ffotograffig i bleidleisio mewn gorsafedd pleidleisio mewn rhai etholiadau.

Bydd hyn yn gymwys yn y digwyddiadau pleidleisio canlynol:

- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd
- Is-etholiadau Senedd y DU
- Deisebau adalw

O fis Hydref 2023 ymlaen bydd y polisi hefyd yn gymwys i etholiadau cyffredinol Senedd y DU.

NODER: Ni fydd yn rhaid i bleidleiswyr yng Nghymru ddangos ID ffotograffig i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn etholiadau'r Senedd neu mewn etholiadau cynghorau lleol.

Diben y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau cyflym hyn yn rhoi gwybodaeth i staff sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd yn cynorthwyo aelodau o'r cyhoedd i ddeall y newid ac yn ymateb i'w hymholiadau.

Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- [Pa fathau o ID ffotograffig a dderbynnir](#)
- [Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr](#)
- [Yr hyn y gall pleidleiswyr ei ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio](#)






Cefnogi'r rheini sydd ei angen i bleidleisio

Rydym yn gwybod bod rhai pobl yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau wrth baratoi am y newid hwn ac efallai y bydd arnynt angen cymorth i gael ID ffotograffig.

Bydd unrhyw un nad oes ganddynt fath o ID ffotograffig a dderbynnir yn gallu gwneud cais am ddogfen ID pleidleisiwr sy'n rhad ac am ddim. Fe'i gelwir yn Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.

Mathau o ID ffotograffig a dderbynnir

Ar gyfer yr etholiadau a restrir uchod (ond nid etholiadau'r Senedd neu etholiadau cynghorau lleol) bydd y mathau canlynol o ID ffotograffig yn cael eu derbyn mewn gorsafodded pleidleisio. Bydd ond angen i bleidleiswyr ddangos un math o ID i bleidleisio. Mae'n rhaid iddo fod yn fersiwn gwreiddiol, copi caled ac nid llungopi neu fersiwn digidol.

				
Teithio rhyngwladol	Gyrru a Pharcio	Teithio lleol	Prawf oedran	Dogfennau eraill a gyhoeddir gan y Llywodraeth
Pasbort	Trwydded yrru (gan gynnwys trwydded dros dro) Bathodyn Glas	Rhai cardiau teithio rhatach	Cerdyn adnabod sydd â marc PASS (y Cynllun Safonau Prawf Oedran)	Dogfen mewnfudo fiometrïg Cerdyn adnabod amddiffyn Cardiau adnabod cenedlaethol

Dim ond mathau penodol o'r ID uchod a dderbynnir. Am ragor o wybodaeth ar ba ffurflenni a dderbynnir, gan gynnwys rhestr lawn o'r cardiau teithio rhatach a dderbynnir, gweler [Atodiad 1](#).

Os nad yw rhywun yn siŵr a oes ganddynt ID ffotograffig a dderbynnir ai peidio, gallant fynd i <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/id-pleidleisiwr> neu ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar **0800 328 0280**.

Derbynnir ID ffotograffig sydd wedi dod i ben os yw'r ffoto yn dal i fod yn ddigon tebyg i'r pleidleisiwr bod staff yr orsaf bleidleisio yn gallu eu hadnabod.

Bydd unrhyw un nad oes ganddynt fath o ID ffotograffig a dderbynnir, neu nad ydynt yn siŵr a yw'r ffoto ar eu ID yn dal i fod yn debyg iddynt, yn gallu gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.

Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr sy'n rhad ac am ddim

Mae'n rhaid i bleidleiswyr fod wedi'u cofrestru i bleidleisio, neu eu bod wedi gwneud cais i fod yn gofrestredig, cyn iddynt wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr. Pan fydd rhywun yn

cofrestru i bleidleisio, gofynnir iddynt p'un a oes ganddynt ID ffotograffig neu a ydynt am wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.

Gwneud cais ar-lein

Gellir gwneud cais ar-lein yn cymraeg.voter-authority-certificate.service.gov.uk

Gwneud cais drwy'r post

Gall pleidleiswyr hefyd wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr drwy gwblhau ffurflen bapur a'i hanfon i'w cyngor lleol.

Gallant ofyn am ffurflen gan y cyngor. Gallant ddod o hyd i'w manylion cyswllt drwy nodi eu cod post yn www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

Gwneud cais dros y ffôn neu'n bersonol

Mae'n bosibl hefyd y bydd eich cyngor yn derbyn ceisiadau yn bersonol a dros y ffôn (y cyngor lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu hyn).

Y broses gwneud cais

Wrth wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, bydd angen i'r pleidleisiwr ddarparu eu:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Rhif Yswiriant Gwladol

Bydd angen iddynt hefyd ddarparu ffoto.

Os nad yw'r pleidleisiwr yn gwybod beth yw eu Rhif Yswiriant Gwladol, gallant chwilio amdano ar eu slipiau cyflog neu ar lythyron swyddogol ynghylch treth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allant ddod o hyd iddo, gallant gwblhau eu cais o hyd ond bydd angen iddynt ddarparu math arall o brawf adnabod, megis tystysgrif geni, cyfriflen banc neu fil cyfleustod. Bydd eu cyngor yn cysylltu â nhw i drefnu hyn.

Gallant hefyd ofyn i rywun sydd yn eu hadnabod i roi ardystiad i'r cyngor i gadarnhau eu hunaniaeth os nad oes ganddynt unrhyw fath arall o brawf adnabod a dderbynnir. Mae'n rhaid i'r person sy'n darparu'r ardystiad fod yn rhywun sydd ag iddynt enw da. Gall eich cyngor lleol ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion ardystiad.

Darparu ffoto

Mae'r gofynion ar gyfer y ffoto yn debyg i'r rheini ar gyfer pasbort - mae'n rhaid i'r ffoto ddangos pen ac ysgwyddau'r person, heb unrhyw orchudd pen, oni bai bod gorchudd yn cael ei wisgo oherwydd credoau crefyddol neu am resymau meddygol. Mae'n rhaid i'r wyneb beidio â chael ei gorchuddio am unrhyw reswm.

Os oes angen help arnynt wrth gymryd eu ffoto, bydd eu cyngor lleol yn gallu gwneud hyn ar eu cyfer.

Am ragor o wybodaeth am yr ofynion o ran ffoto, gweler [Atodiad 2](https://electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/id-pleidleisiwr) neu ewch i electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/id-pleidleisiwr.

Bydd y cyngor lleol yn prosesu'r cais ac yn anfon y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr i'r ymgeisydd drwy'r post. Nid oes gan Dystysgrifau Awdurdod Pleidleisiwr ddyddiad dod i ben, ond caiff pleidleiswyr eu hannog i adnewyddu eu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr ar ôl 10 mlynedd.

Bydd yr holl ddata a ddarperir gan bleidleiswyr wrth wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr yn cael eu storio'n ddiogel gan gynghorau lleol, yn unol â rheoliadau diogelu data.

Yr hyn fydd yn digwydd yn yr orsaf bleidleisio

Pan fydd rhywun yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio i bleidleisio, bydd aelod o'r staff yn:

1. Gofyn iddynt am eu henw a'u cyfeiriad er mwyn iddynt allu dod o hyd iddynt ar y gofrestr
2. Gofyn am eu ID ffotograffig ac yn gwirio ei fod yn dderbyniol
3. Os yw eu ID yn dderbyniol, byddant yn rhoi papur pleidleisio iddynt ac yn eu cyfarwyddo i'w llenwi yn y bwth pleidleisio, fel sy'n arferol.

Bydd ardal breifat ar gael mewn gorsafoedd er mwyn i bleidleiswyr allu dewis cael eu ID wedi'i weld yn breifat. Gall hon fod yn ystafell ar wahân, neu'n ardal sydd wedi'i gwahanu gan sgrin preifatrwydd, yn dibynnu ar yr orsaf bleidleisio.

Os hoffai aelodau o'r cyhoedd wybodaeth bellach am yr hyn y gallant ei ddisgwyl wrth bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, dylent gysylltu â'u cyngor lleol. Gallant ddod o hyd i'w manylion cyswllt drwy nodi eu cod post yn electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.

Atodiad 1: Mathau o ID a dderbynnir

Derbynnir y mathau canlynol o ID ffotograffig wrth bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio:

- Pasbort a gyhoeddwyd gan y DU, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu wladwriaeth Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
- Trwydded parcio Bathodyn Glas
- Trwydded yrru (gan gynnwys trwydded dros dro) a gyhoeddwyd gan y DU, unrhyw un o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu wladwriaeth AEE
- Cerdyn adnabod sydd â hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (cerdyn PASS)
- Dogfen mewnfudo fiometrïg
- Cerdyn Adnabod Amddiffyn
- Cerdyn adnabod cenedlaethol a gyhoeddwyd gan wladwriaeth AEE
- Y cardiau teithio rhatach canlynol:

Pasys a gyllidir gan Lywodraeth y DU

- Pàs Bws Person Hÿn
- Pàs Bws Person Anabl
- Cerdyn Oyster 60+
- Pàs Freedom

Pasys a gyllidir gan Lywodraeth yr Alban

- Y Cerdyn Hawl Cenedlaethol

Pasys a gyllidir gan Lywodraeth Cymru

- Cerdyn Teithio Rhatach yng Nghymru i Bobl 60 Oed a Hÿn
- Cerdyn Teithio Rhatach yng Nghymru i Bobl Anabl

Pasys a gyhoeddir o dan Gynllun Tocynnau Rhatach Gogledd Iwerddon

- SmartPass i Bobl Hÿn
- SmartPass i bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu SmartPass i bobl ddall
- SmartPass Anabledd Rhyfel
- SmartPass 60+
- SmartPass Hanner Pris

Atodiad 2: Gofynion o ran ffoto ar gyfer y cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr

Steil y ffoto

Mae'n rhaid i'r ffoto dangos yr ymgeisydd:

- Yn wynebu ymlaen ac yn edrych yn syth ar y camera
- Ffoto agos o'u pen ac ysgwyddau, heb unrhyw orchudd pen, oni bai eu bod yn gwisgo un oherwydd credoau crefyddol neu am resymau meddygol
- Heb unrhyw berson arall yn y ffoto
- Gyda mynegiant wyneb plaen gyda'u llygaid ar agor ac yn weladwy (er enghraifft, heb sbectol haul a heb eu cuddio â gwallt ac ati). Nodwch na fydd hyn yn gymwys os na all yr ymgeisydd ddarparu ffoto sy'n cydymffurfio â'r naill ofyniad neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, oherwydd unrhyw anabledd.

Ansawdd y ffoto

Mae'n rhaid i'r ffoto fod:

- Yn wirioneddol debyg i'r ymgeisydd, heb ei newid na'i drin
- Mewn lliw
- Wedi ei dynnu yn erbyn cefndir golau, plaen
- Mewn ffocws ac yn eglur
- Heb lygaid coch, cysgodion ar yr wyneb, nac adlewyrchiadau
- Heb ei ddifrodi

Maint y ffoto

Os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais ar-lein, mae'n rhaid i'r ffoto a ddarperir ganddynt fod:

- O leiaf 750 picstel o uchder a 600 picstel o led
- Mewn ffeil electronig nad yw'n fwy na 20MB o faint

Os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais gan ddefnyddio ffurflen bapur, mae'n rhaid i'r ffoto fod:

- O leiaf 45 milimetr o uchder a 35 milimetr o led
- Yn ddim mwy na 297 milimetr o uchder na 210 milimetr o led

Diwedd